Ein cynllun corfforaethol –

Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd

# Datganiadau effaith a dangosyddion strategol drafft

## Atodiad 1 – Methodoleg

Mae ein cynllun corfforaethol hyd at 2030, *Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd,* yn cyflwyno ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n hamcanion llesiant hyd at 2030.

Yn y cynllun, gwnaethom ymrwymo i gryfhau ein fframwaith rheoli perfformiad, er mwyn sicrhau ein bod yn monitro cyflawniad y cynllun corfforaethol yn effeithiol. Rydym wedi creu fframwaith rheoli perfformiad sy'n monitro cynnydd tuag at ein hamcanion llesiant yn 2030 a thu hwnt, gan ddangos hefyd yr hyn sy'n digwydd yn ein busnes o ddydd i ddydd. Mae sicrhau'r aliniad hwn wedi bod yn ganolog i'n dull gweithredu, fel y gallwn ddangos cynnydd ac adrodd y stori dros oes y cynllun a thu hwnt.

Rydym wedi creu ein fframwaith rheoli perfformiad i integreiddio'r strategol a'r gweithredol, gan ddefnyddio gwybodaeth fwy manwl a gronynnog wrth i ni symud ymlaen i ddeall y ffactorau sy'n sbarduno perfformiad:

***Strategol*** - yn canolbwyntio ar y tymor hir hyd at 2030 a thu hwnt. Fe'i defnyddir i fonitro ac adrodd ar gynnydd wrth gyflawni'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'n hamcanion llesiant.

***Gweithredol*** – yn canolbwyntio ar y tymor byr i ganolig hyd at 2030. Defnyddir cynllunio aml-flwyddyn i fonitro ac adrodd ar gynnydd o ran sicrhau canlyniadau'r camau i'w cymryd. Bydd dilyniannu yn llywio blaenoriaethu yn y cynllun busnes blynyddol.

- ***Cynllun Busnes Blynyddol*** – yn canolbwyntio ar yr ymrwymiadau blynyddol tymor byr. Fe'i defnyddir i fonitro ac adrodd ar gynnydd wrth gyflawni ymrwymiadau blynyddol sy'n cyd-fynd â chamau wedi'u dilyniannu i gymryd blaenoriaethau o'r cynllun aml-flwyddyn.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn darparu llinell glir o'r cynllun corfforaethol i gynlluniau adrannol, tîm ac unigol.

Mae Diagram 1 isod yn amlinellu priodoleddau monitro strategol a gweithredol.

**Diagram 1: Priodoleddau monitro strategol a gweithredol**

**STRATEGOL**

**Effeithiau (gyda dangosyddion strategol)**

- *Monitro cynnydd neu dueddiadau tuag at ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n hamcanion llesiant – yr effeithiau rydym am eu gweld erbyn 2030*
- ***Effeithiau** - edrych tuag allan ac yn fwy na CNC yn unig. **Dangosyddion strategol** – dangos cynnydd tuag at yr effeithiau (y rhai y gall CNC ddylanwadu arnynt). Mae **naratif** yn rhoi manylion a chyd-destun.*
- *Ar gyfer penderfyniadau strategol lefel uchel, nid ar gyfer diagnosio a dadansoddi problemau gweithredol.*
- *Monitro dros amser i gael darlun o gynnydd, nid monitro'n rheolaidd iawn.*
- *Parhau am gyfnod y cynllun corfforaethol*

**GWEITHREDOL**

**Cynllunio aml-flwyddyn a Chynlluniau Busnes Blynyddol (gyda metrigau perfformiad)**

- *Asesu busnes CNC - o fewn ein rheolaeth uniongyrchol*
- *Rhoi sicrwydd ac eglurder i ddod yn effeithiol ac yn effeithlon wrth gyflawni ein blaenoriaethau.*
- *Diagnosio a dadansoddi i gymryd camau unioni yn gyflym, datrys materion cyn iddynt ddatblygu i fod yn broblemau.*
- *Yn cael ei wneud yn rheolaidd. Yn gysylltiedig â monitro cynnydd strategol, ond nid ar gyfer hynny.*
- *Gall a dylai metrigau newid dros amser gyda'r amrywiad mewn amodau, dylanwadau, cwblhau tasgau ac ati.*
- *Yn ymateb i ddarlun sy'n newid.*

Bydd gweddill y fethodoleg yn canolbwyntio ar yr elfen 'Strategol' – datblygiad y Datganiadau Effaith a'r Dangosyddion Strategol.

## Monitro perfformiad strategol - effeithiau a dangosyddion strategol

Er mwyn darparu persbectif integredig ar berfformiad strategol, rydym yn defnyddio datganiadau effaith a dangosyddion strategol gyda'n gilydd. Mae'r rhain wedi'u creu'n ofalus i osgoi seilos swyddogaethol ac i hwyluso cysylltiadau wrth i ni ymdrechu i wneud y mwyaf o'n gwaith ar natur, hinsawdd a lleihau llygredd er lles pobl.

Mae'r **datganiadau effaith** o dan yr amcanion llesiant ac yn diffinio uchelgais yr hyn rydym am ei weld erbyn 2030 a thu hwnt - y gyrchfan neu'r 'nod'. Maent yn rhoi disgrifiad manwl o sut beth yw llwyddiant. Mae'r datganiadau effaith yn edrych tuag allan ac yn cydnabod y bydd angen gweithredu ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wireddu newid.

Mae'r **dangosyddion strategol** yn canolbwyntio ar y pethau hynny y gall CNC ddylanwadu'n uniongyrchol arnynt, gan ddefnyddio ei ysgogiadau a'i adnoddau, ac maent yn uchelgeisiol ac ymestynnol yn fwriadol. Rydym wedi dewis dangosyddion lle gallwn fonitro cynnydd dros amser, gan olrhain cynnydd yn erbyn y pethau sydd angen eu newid erbyn 2030 (y llwybrau mae angen i ni eu newid). Rydym wedi dewis dangosyddion strategol sy'n darparu asesiad integredig o gynnydd, gan baentio darlun o'r cynllun

corfforaethol yn ei gyfanrwydd. Mae pob un wedi'i greu ar lefel uchel i 'dynnu' data arall a dylent fod yn fesuradwy ac yn dryloyw. Mae pob dangosydd strategol yn cyfrannu at sawl datganiad effaith sy'n amlygu'r ymagwedd drawsbynciol a chyfannol sydd gennym at fonitro ac adrodd.

Mae'r cyfuniad o effeithiau; dangosyddion meintiol ac ansoddol; a naratif ategol yn darparu persbectif strategol o gynnydd tuag at ein hamcanion llesiant a'r manteision lluosog sy'n deillio o'n gwaith. Bydd y tair rhan yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd i adrodd y stori gyflawn.

## Egwyddorion ar gyfer datblygu

- Yn unol â'n hymrwymiad yn y cynllun corfforaethol, gwnaethom fabwysiadu dull 'dalen wag o bapur', er mwyn osgoi cael ein denu i ganolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n rhwydd, yn hytrach na'r rhai sy'n bwysig eu monitro. Gwnaethom herio ein hunain i sicrhau ein bod yn archwilio'r hyn y mae angen i ni ei wybod, a chydnabod, mewn rhai meysydd, y bydd angen i ni ddatblygu ffynonellau data newydd i gefnogi'r dangosyddion strategol.
- Dan arweiniad y Tîm Strategaeth Gorfforaethol, mae gweithgor traws-gyfarwyddiaeth, gyda chyfranogiad aelodau'r Bwrdd Calvin Jones a Mark MacKenna, wedi datblygu'r dangosyddion strategol. Craffwyd ar y fethodoleg a'r cynnydd yn y datblygiad gan y Grŵp Cynllunio ac Adnoddau a'r Tîm Gweithredol. Mae'r Timau Arwain a Rheoli wedi cael sesiynau briffio hefyd. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael eu briffio ar y cynnydd hyd yma hefyd.
- Gwnaethom ymrwymo i ganolbwyntio ar nifer fach o effeithiau a dangosyddion strategol sy'n darparu asesiad integredig o gynnydd, gan baentio darlun o'r cynllun corfforaethol yn ei gyfanrwydd.
- Ni fydd unrhyw un tîm nac adran yn gyfrifol am ddatganiad effaith neu ddangosydd strategol unigol. Byddant yn eiddo ar y cyd i'r Tîm Gweithredol a Bwrdd CNC.
- Bydd yr effeithiau a'r dangosyddion strategol yn cael eu profi hyd at Hydref 2024 gyda'r bwriad o'u cwblhau a'u cymeradwyo i'w defnyddio yn 2025-26. Byddant yno wedyn am weddill y cynllun corfforaethol hyd at 2030 (a thu hwnt). Bydd y profion yn cynnwys: ymgysylltu â phartneriaid i archwilio dealltwriaeth a chyfleoedd i fireinio; datblygu agenda datblygu lle rydym wedi nodi bylchau; defnydd mewn amser real i fframio a llywio pedair trafodaeth strategol benodol ar lefel Tîm Gweithredol a Bwrdd.

## Dull Gweithredu

Cymerwyd ymagwedd ystyriol ac ailadroddol at ddatblygu'r effeithiau a'r dangosyddion strategol. Mae Diagram 2 yn dangos y broses ddatblygu.

**Datganiadau Effaith** yw'r hyn rydym am ei weld erbyn 2030.
- Datblygwyd datganiadau effaith er mwyn pennu'r uchelgais. Byddant yn ymestynnol ond yn gyraeddadwy, gan ddangos y gwahaniaeth rydym am ei weld ar gyfer yr amgylchedd a phobl.
- Mae'r Datganiadau Effaith yn edrych tuag allan ac yn cydnabod yn glir na all CNC gyflawni'r nodau hyn ar ei ben ei hun.
- Drwy gyfres o weithdai mewnol, rydym wedi rhagweld lle rydym am fod yn 2030, gan nodi sut beth fyddai llwyddiant. Rydym wedi ystyried hyn ar gyfer pob un o'r amcanion llesiant, gan gynnwys y camau i'w cymryd, ochr yn ochr â'r ymrwymiadau eraill yn y

cynllun. O hyn, gwnaethom nodi rhestr hir gychwynnol, sydd wedi'i mireinio i restr fer sy'n rhoi golwg gyfannol ar beth fydd effeithiau ein camau gweithredu.

**Diagram 2: Proses ar gyfer datblygu effeithiau a dangosyddion strategol**

***Peidiwch â phoeni os oes gennym ni'r data eto neu beidio!!!!***

*Sut olwg sydd ar lwyddiant?*

***Natur***
Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

***Hinsawdd***
Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

***Llygredd***
Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

Maes Ffocws
- XX
- XX

***Ardaloedd eraill***
- XX
- XX
- XX
- XX
- XX

*O'r chwith edrychwch am debygrwydd, dewch â dyblygiadau ynghyd, coethwch, mireiniwch ac ati.*

**Rhestr hir**

XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX

*O'r chwith, pa rai sydd â'r potensial cryfaf i adrodd y stori strategol gyfannol orau a pha rai sydd ar y lefel nesaf.*

*Dyma ein rhestr fer.*

**Rhestr fer**

XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX
XXX

***Nawr meddyliwch am y data!!!!***

*O'r rhestr fer, ar gyfer pob un:*

*a. Beth yw'r cwestiynau y mae angen i ni eu hateb?*

*b. A ydyn ni'n meddwl bod gennym ni wybodaeth a data i ateb y cwestiynau hynny? Nodi bylchau (nid yw hyn yn golygu na fyddwn yn eu defnyddio, ond cânt eu nodi fel rhai datblygiadol.)*

*c. Nodi'r data/gwybodaeth ategol a fydd yn darparu'r naratif/ cyd-destun/ stori.*

*O'r wybodaeth hon byddwn yn nodi'r hyn a gredwn yw'r darlun dangosol cryfaf - gan ddarparu darlun cyfannol o'r Cynllun Corfforaethol cyfan.*

Mae **Dangosyddion Strategol** yn canolbwyntio ar y llwybrau mae angen i ni eu cymryd (y pethau sydd angen eu newid erbyn 2030).

- Mae ein dewis o ddangosyddion strategol yn canolbwyntio ar y pethau hynny sydd o fewn ein gallu i ddylanwadu arnynt.
- Mae pob un ar lefel uchel i 'dynnu' data arall gydag ef.
- Mae cydweithwyr ar draws arbenigeddau wedi cael eu cynnwys i nodi'r dangosyddion strategol sy'n cynrychioli'r llwybrau i'w cymryd o dan y datganiadau effaith.
- Bydd gan bob datganiad effaith ychydig o ddangosyddion strategol, ond gall pob dangosydd gyfrannu at fwy nag un maes effaith sy'n dangos natur gyfannol ein gwaith.
- Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr allanol i fanteisio ar eu harbenigedd, megis Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Cyd-destun a naratif ategol.** Drwy fonitro ac adrodd, bydd y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol yn cael eu hategu gan fanylion sy'n nodi'r naratif a'r cyd-destun ehangach rydym yn gweithio ynddo. Bydd hyn yn ein galluogi i ddangos dibyniaeth, nodi risgiau posibl a rhoi eglurder ar y cyfyngiadau allanol a'r aneffeithlonrwydd yn y system ehangach a allai fod yn rhwystr i gynnydd.

- Mae cydweithwyr ar draws arbenigeddau’n cael eu cynnwys i nodi cynnwys ar gyfer y naratif a'r cyd-destun ategol drwy'r cyfnod profi.